# Adroddiad Cwrs. Adnabod Coed i Ddechreuwyr; 19eg Gorffennaf 2017, Parc Menai, Bangor

Er gwaethaf tywydd difrifol mis Gorffennaf, daeth pum unigolyn dewr i ymuno â Richard a Bob am ddiwrnod o adnabod coed ym Mharc Menai, Bangor.

Dechreuwyd y cwrs gyda'r te/coffi hanfodol a dewis o fisgedi o safon, ac wedyn aethom ati i fwyta ein pecyn bwyd i ginio cyn mentro allan.

Y gwahaniaeth rhwng coed conwydd, llydanddail, collddail a bythwyrdd oedd yr eitem gyntaf ar ein rhestr, gyda'r drafodaeth hefyd yn rhoi sylw i goed meddal a chaled.

Wrth i ni grwydro ar hyd llwybrau Parc Menai, roeddem yn stopio i archwilio gwahanol rywogaethau o goed a llwyni. Roedd yn ddiddorol iawn dod o hyd i Gelyn Ffrainc, llwyn bythwyrdd bach, yn tyfu mewn llecyn cysgodol o dan goed Celyn.

Yn anffodus, daeth yn storm a bu'n rhaid i ni frysio'n ôl dan do. Wedi i'r glaw gilio, dyma fentro allan eto. Cafwyd hyd i rai coed anarferol, fel Masarnen Fach, Castanwydden Bêr, Ceiriosen Wyllt, Bedwen Gyffredin a Derwen Twrci. Hefyd buom yn trafod yr anhawster wrth adnabod coed derw brodorol, gydag esiampl o goeden *Quercus* x *rosacea* (hybrid naturiol derw Coesynnog a Digoes) yn ein tyb ni.

Er ein bod yn wlyb at ein crwyn, gwnaethom yn fawr o'r diwrnod gan orffen drwy edrych ar samplau o goed prin fel Cerddinen Wen a Cherddinen Wyllt.





cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP



© http://northeastwildlife.co.uk/